**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**4 Mawrth 2025**

**Disgrifiad**

1.1. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025 ('y Rheoliadau') yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ('y prif Reoliadau').

1.2. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn gwneud newidiadau i reoliad 19 o'r prif Reoliadau (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) i alluogi cyrff partneriaeth i arfer mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y maent yn cyfuno cronfeydd wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â llety cartref gofal i bobl hŷn.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adrannau 167(3)(a), (b) a (d), a 196(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf').

3.2. Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Diben y Rheoliadau yw cryfhau rôl y partneriaethau rhanbarthol o dan Ran 9 o'r Ddeddf, a chryfhau rôl y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

4.2. Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud fel rhan o Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghori ar Bapur Gwyn ym mis Ionawr 2021. Cafodd elfennau'r rhaglen eu nodi mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 29 Hydref 2021: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-papur-gwyn-ar-ailgydbwyso-gofal-chymorth-y-camau-nesaf

4.3. Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r prif Reoliadau i wneud newidiadau i reoliad 19 (sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun).

4.4. Bydd y Rheoliadau yn galluogi cyrff partneriaeth i arfer mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y maent yn cyfuno cronfeydd wrth arfer eu priod

swyddogaethau mewn perthynas â llety cartref gofal i bobl hŷn. Bydd yn ofynnol o hyd i gyrff partneriaeth gynnal a chyfuno cronfeydd wrth arfer y swyddogaethau hyn, ond ni fydd yn ofynnol mwyach iddynt wneud hynny ar sail ranbarthol (o dan drefniadau gyda'r holl gyrff partneriaeth eraill ar gyfer ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol). Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu cyllidebau cyfun rhanbarthol os ydynt yn dymuno gwneud hynny ond penderfyniad i'w wneud yn lleol fydd hwn, a fydd yn golygu bod modd ystyried amgylchiadau lleol yn llawn.

## 5. **Ymgynghori**

5.1. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad ar amryw o gynigion i gryfhau gweithio mewn partneriaeth. Roedd yr ymgynghoriad cyntaf, rhwng 22 Mai a 14 Awst 2023, yn ymdrin ag elfennau amrywiol o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, gan gynnwys cynigion ar gyfer diwygio'r prif Reoliadau a'r Rheoliadau Cynllunio Ardal (h.y. yn nodi ein bwriad i wneud rheoliadau diwygio) a drafft o Ganllawiau Statudol Rhan 9: Trefniadau Partneriaeth. Roedd yr ail ymgynghoriad, rhwng 16 Ebrill a 19 Gorffennaf 2024, yn ymwneud yn benodol â set ddrafft o Reoliadau.

5.2. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth

5.3. Roedd yr ymatebion i'r ymgyngoriadau yn dangos bod consenswS cyffredinol ymhlith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod y gofynion presennol ynghylch cyllidebau cyfun rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal yn atal partneriaid rhag ymgysylltu'n llawn â'r agenda hon a'u bod, yn ymarferol, yn ychwanegu at gymhlethdod sefydlu cyllidebau o'r fath ac yn achosi oedi o ran eu datblygu. Hefyd, mewn perthynas â Byrddau Partneriaeth mwy fel un y Gogledd, sy'n cynnwys 7 partner statudol, roedd llawer mwy o heriau i'w datblygu o'i gymharu â Bwrdd llai fel Powys sydd â 2 bartner statudol. Dywedodd y Byrddau fod datblygu cyllidebau cyfun yn flaenoriaeth allweddol, ond fod angen mwy o hyblygrwydd i gyflymu'r cynllunio ac i sicrhau bod trefniadau effeithiol a chynaliadwy yn cael eu datblygu o dan strategaethau cydgomisiynu ehangach.

5.4. Cafodd y Canllawiau Statudol Rhan 9 drafft eu diwygio hefyd i ystyried yr adborth a gafwyd yn y ddau ymgynghoriad, er mwyn rhoi hyblygrwydd ychwanegol wrth drefnu cyllidebau cyfun ar gyfer cartrefi gofal.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1. Gan fod y Rheoliadau yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth er mwyn iddi fod yn gyson a'r polisi a fwriedir ac chan nad yw'r diwygiadau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol nac yn newid y ffordd y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â Chod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

## 7. Adolygu ar ôl gweithredu

7.1. Mae ffynonellau amrywiol o wybodaeth ar gael a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i adolygu a yw'r newidiadau a gyflwynir gan y Rheoliadau diwygiedig a'r Canllawiau Statudol diwygiedig yn cael yr effaith a ddymunir, sef cryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol a chynyddu effeithiolrwydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

9.2. Bydd y gofynion newydd i'r Byrddau ymgymryd â hunanasesiad bob dwy flynedd (ac adolygiad blynyddol hanner ffordd rhwng y blynyddoedd hyn) yn rhoi gwybodaeth iddynt am sut y maent yn bodloni'r gofynion yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol. Rhaid i grynodeb o’r hunanasesiad neu'r adolygiad hwn gael ei gynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol.

9.3. Mae'n ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer cyllidebau cyfun a chydgomisiynu drwy eu hadroddiadau blynyddol.

9.4. Yn unol ag arferion da sefydledig ar is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r ffordd y mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau Rhan 9 diwygiedig yn cael eu gweithredu ymhen tair blynedd (erbyn mis Rhagfyr 2027).